# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 3

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Swyddogion cydlynu anghenion dysgu ychwanegol*

### 60 Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol

(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys—

(a) i gorff llywodraethu ysgol yng Nghymru—

(i) sy'n ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol,

(ii) sy'n ysgol feithrin a gynhelir, neu

(iii) sy'n uned cyfeirio disgyblion;

(b) i gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod â chyfrifoldeb am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol.

(3) Mae person sydd wedi ei ddynodi o dan yr adran hon i gael ei alw'n "cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol".

(4) Caiff rheoliadau—

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2023.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau);

(b) rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darparu ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol.

(5) Yn is-adrannau (2) a (4)(b), ystyr "myfyrwyr" yw myfyrwyr sydd wedi ymrestru yn y sefydliad yn y sector addysg bellach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 60 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(g)**

**I3** A. 60 mewn grym ar 4.1.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2020/1182, **rhl. 4(2)(c)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.